CYFRAN-OCWCH!

# CYFANSODDIAD LLAIS MYFYRWYR

COLEG CAMBRIA

## CYFRANOGWCH!



**CYFANSODDIAD LLAIS MYFYRWYR COLEG CAMBRIA**

**(CYMDEITHAS ANGHORFFOREDIG)**

# DIFFINIADAU CYFLYM

| | |
|---|---|
| **AELODAU** | Mae myfyrwyr sy'n 16 oed a hŷn yng Ngholeg Cambria yn cael eu hystyried yn aelodau Llais Myfyrwyr Coleg Cambria ac mae ganddynt hawl i leisio'u barn a chael eu clywed. |
| **CYNRYCHIOLWYR** | Y cynrychiolwyr yw'r myfyrwyr sydd wedi cael eu hethol mewn etholiad dosbarth, neu drwy gael enwebiad, i gynrychioli llais eu dosbarth. |
| **AELODAU CYNGOR SAFLE** | Y cynrychiolwyr yw'r myfyrwyr sydd wedi cael eu dewis i gynrychioli eu dosbarth a'u safle mewn cyfarfodydd gydag aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli. |
| **IS-LYWYDDION MYFYRWYR** | Dyma'r cynrychiolwyr sydd wedi'u hethol i gynrychioli eu safle a chyflawni dyletswyddau ychwanegol, gan gynnwys cadeirio cyfarfodydd Cyngor Safle. |
| **PWYLLGOR GWEITHREDOL** | Mae'r Pwyllgor Gweithredol yn cynnwys Swyddogion Llais Myfyrwyr, sy'n gyfrifol am wahanol ddyletswyddau, ar draws y safleoedd. |
| **LLYWODRAETHWYR MYFYRWYR** | Mae 2 o Lywodraethwyr Myfyrwyr (myfyrwyr cymwys 16 oed a hŷn, yn ystod y cyfnod maent wedi'u cofrestru fel myfyrwyr cyfredol) yn cael eu dewis gan gymysgedd o etholiadau a chyfweliadau i gynrychioli buddion y myfyrwyr ar Fwrdd y Llywodraethwyr. Gall Llywodraethwyr Myfyrwyr weithio am ddwy flynedd os ydynt yn aros yn ddysgwyr cofrestredig. |

Mae Llais Myfyrwyr Coleg Cambria yn gymdeithas myfyrwyr yn ôl ystyr y Ddeddf Addysg 1994, sy'n gweithredu fel llais i'n haelodau, gan ganolbwyntio'n gadarn ar ddiddordebau a lles addysgol. Mae Coleg Cambria yn darparu adnoddau i ni i'n helpu i gyflawni ein Hamcanion.

**CYFRAN-OGWCH!**

# AMCANION: Ein nod yw hybu addysg myfyrwyr Coleg Cambria er budd pawb drwy:

CYFRAN-OGWCH!

Darparu gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol, chwaraeon a hamdden i fyfyrwyr.

Bod yn sianel Gynrychiolwyr gydnabyddedig rhwng myfyrwyr, Coleg Cambria a sefydliadau allanol perthnasol.

Darparu fforymau ar gyfer trafod a dadlau.

Gwneud myfyrwyr yn ymwybodol o weithgareddau Llais Myfyrwyr.

Hyrwyddo buddion a lles Myfyrwyr Coleg Cambria drwy gynrychioli, cefnogi a'u cynghori.

Hyrwyddo Coleg Cambria.

## PWERAU:

Er mwyn i ni allu cyflawni ein hamcanion, mae gennym y pŵer i:

a) Ddarparu gweithgareddau, gwasanaethau a chyfleusterau i'n myfyrwyr a'u hyrwyddo;
b) Codi arian a chael grantiau a rhoddion; a
c) Gwneud unrhyw beth sy'n gyfreithlon i gyflawni ein hamcanion.

## ARIAN AC EIDDO:

Rhaid defnyddio ein harian a'n heiddo i'n helpu i gyflawni ein Amcanion yn unig.

Ni all y Pwyllgor Gweithredol gymryd unrhyw arian nac eiddo gennym ac eithrio eu treuliau parod rhesymol.

Efallai bydd cynrychiolwyr yn cael talebau ar gyfer digwyddiadau Llais Myfyrwyr penodol – gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i gynorthwyo fel Llysgennad Myfyrwyr mewn Digwyddiadau Agored – ond ni wneir unrhyw daliad arall.

## AELODAU:

Mae'r amodau a'r gofynion cymhwysedd canlynol yn berthnasol i aelodaeth Llais Myfyrwyr Coleg Cambria:

Mae holl aelodau Llais Myfyrwyr Coleg Cambria yn gymwys i gynnig eu hunain fel Cynrychiolwyr Myfyrwyr ar gyfer eu dosbarth.

Mae aelodau dilys i gyd yn fyfyrwyr 16 oed a hŷn, yn ystod yr amser y maent wedi cofrestru fel myfyrwyr presennol yng Ngholeg Cambria. Mae pob aelod yn gymwys am ostyngiad NUS/Totum a chardiau adnabod.

Daw aelodaeth Llais Myfyriwr i ben pan na fyddwch yn fyfyriwr yng Ngholeg Cambria rhagor NEU os bydd penderfyniad yn cael ei wneud i'ch gwahardd o'r coleg o dan 'God Ymddygiad' Coleg Cambria. Bydd y Pwyllgor Gweithredol yn defnyddio ac yn monitro'r Cod Ymddygiad y mae'n rhaid i bob aelod gadw ato, gan gynnwys pan fo aelodau'n ymwneud â gweithgareddau neu ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal neu eu trefnu gennym.

Gall aelodau ddefnyddio ein cyfleusterau a chymryd rhan yn ein gweithgareddau addysgol, cymdeithasol, chwaraeon a diwylliannol.

Gall aelodau siarad a phleidleisio mewn cyfarfodydd, enwebu aelodau eraill ar gyfer rolau gyda chyfrifoldebau ychwanegol, sefyll a phleidleisio yn ein hetholiadau, a chael rôl mewn clybiau, cymdeithasau ac ar ein Pwyllgor Gweithredol.

Nid yw aelodau staff sydd hefyd yn fyfyrwyr yn aelodau o Llais Myfyrwyr.

Ni all myfyrwyr presennol sydd wedi cofrestru yng Ngholeg Cambria ac o dan 16 oed fod yn aelodau, ond gallant gymryd rhan mewn gweithgareddau dethol fel y cymeradwywyd gan y Pwyllgor Gweithredol. Nid ydynt yn gymwys i gael gostyngiad NUS/Totum a cherdyn adnabod

## ETHOLIADAU:

Gall aelodau ymgymryd â rolau amrywiol sydd ar gael iddynt trwy Llais Myfyrwyr Coleg Cambria. Yn unol â Deddf Addysg 1994, bydd yr holl Fyfyrwyr/Cynrychiolwyr Dosbarth, Is-lywyddion Myfyrwyr a Llywyddion Myfyrwyr yn cael eu hethol drwy bleidlais gudd o'r aelodau perthnasol (gweler tudalen 4). Yn gyntaf bydd Cynrychiolwyr Cyngor Safle a Swyddogion Myfyrwyr yn cael eu cyfweld a bydd ymgeiswyr cymwys terfynol yn cael eu cyflwyno ar gyfer etholiadau trwy bleidlais gudd o aelodau perthnasol.

# CYNRYCHIOLWYR LLAIS MYFYRWYR AB:

CYFRAN-OGWCH!

## Mae'r rolau canlynol yn ffurfio fframwaith system Llais Myfyrwyr Coleg Cambria – mae gan bob un o'r rolau cyfrifoldeb hyn ei phrosesau etholiadol ei hun:

| | |
|---|---|
| **MYFYRWYR**<br>**Pob myfyriwr sy'n cael eu cynrychioli gan y rolau isod. Mae gan yr holl fyfyrwyr y cyfle i leisio'u barn a chael eu clywed.** | Pob myfyriwr sy'n cael eu cynrychioli gan y rolau isod. Mae gan yr holl fyfyrwyr y cyfle i leisio'u barn a chael eu clywed. Gallant wneud hyn drwy roi adborth i Gynrychiolwyr Myfyrwyr, cymryd rhan mewn grwpiau ffocws, defnyddio eu pleidleisiau i ddewis eu Llywydd Myfyrwyr, defnyddio'r platfform Dweud eich Dweud a chymryd rhan mewn grwpiau, clybiau a gweithgareddau. |
| **CYNRYCHIOLWYR MYFYRWYR / DOSBARTH**<br>**Tua. 1 – 2 i bob Grŵp CDU, Tiwtor, Bugeiliol, Cynnydd neu Ddosbarth** | Gwahoddir myfyrwyr i fynegi diddordeb mewn bod yn Gynrychiolwyr Myfyrwyr, y cyfeirir atynt hefyd fel Cynrychiolwyr Dosbarth, i'w Hanogwyr Cynnydd. Mae'r ymgeiswyr hyn yn cael eu hethol/enwebu gan eu dosbarth ar gyfer y rôl. Mae pob dosbarth yn cyflwyno 1 neu 2 Cynrychiolydd Myfyrwyr o statws cyfartal fel llais eu dosbarth. Siaradwch â'ch Hanogwr Cynnydd ynglŷn â bod yn Gynrychiolydd Myfyrwyr. |
| **CYNRYCHIOLWYR CYNGOR SAFLE**<br>**Tua 12 i bob Safle** | Yn dilyn eu Sesiwn Hyfforddi, gwahoddir Cynrychiolwyr Myfyrwyr i gyflwyno cynigion a syniadau i'r Uwch Reolwyr mewn Cyngor Safle, yn ystod tymor 1 a thymor 2. |
| **IS-LYWYDD MYFYRWYR**<br>**1 i bob Safle** | Bob blwyddyn academaidd, bydd pob Cynrychiolydd Cyngor Safle* yn cael cyfle i ymgyrchu am rôl Is-lywydd Myfyrwyr ar gyfer eu safle. Mae pob myfyriwr yn gymwys i bleidleisio.<br>Bydd y pleidleisiau wedi cael eu casglu erbyn diwedd mis Mai.<br>Fel yr unig ymgeiswyr cymwys, gofynnir i Is-lywyddion Myfyrwyr ymgyrchu am rolau Llywydd Myfyrwyr ym mis Medi-Hydref. |
| **LLYWYDD MYFYRWYR**<br>**1 i bob 3 Safle** | Gofynnir i Is-lywyddion Myfyrwyr ymgyrchu am rolau Llywydd Myfyrwyr ym mis Medi-Hydref. Etholir 2 Lywydd Myfyrwyr ym mis Tachwedd. Mae pob myfyriwr sydd â statws aelodaeth yn gymwys i bleidleisio. Mae Grŵp Safle yn cynnwys: Gogledd-Ddwyrain: Iâl, Ffordd y Bers a Llysfasi Gogledd-Orllewin: Glannau Dyfrdwy, Chweched Glannau Dyfrdwy a Llaneurgain. |

Dyfernir pob lefel o statws Cynrychiolydd etholedig/enwebedig am un flwyddyn academaidd yn unig, ac eithrio Is-lywyddion Myfyrwyr, sy'n ymgymryd â'u rolau o 1 Gorffennaf – 30 Mehefin, gyda'r blynyddoedd academaidd yn gorgyffwrdd.

* Os nad oes Cynrychiolwyr Cyngor Safle yn ymgeisio am rôl Is-Lywydd Myfyrwyr, bydd ceisiadau'n cael eu hagor i Gynrychiolwyr Myfyrwyr ac yna i Fyfyrwyr yn y drefn honno.

# DYLETSWYDDAU LLAIS MYFYRWYR AB:

CYFRANOGWCH!

## Mae gan bob rôl Cynrychiolydd Llais Myfyrwyr eu cyfrifoldebau eu hunain:

| | |
|---|---|
| **MYFYRWYR**<br>**Pob myfyriwr sy'n cael eu cynrychioli gan y rolau isod.** | Gan fod pob myfyriwr yn aelodau o Llais Myfyrwyr Coleg Cambria (yn amodol ar y canllawiau a nodir ar dudalen 3) mae bob Myfyriwr yn gyfrifol am sicrhau bod eu barn yn cael eu bwydo i blatfformau'r Llais Myfyrwyr. Os nad oes gan ddosbarth Gynrychiolydd Myfyrwyr, gallant gynnig bod yn Gynrychiolydd Myfyrwyr neu gallant gysylltu â Swyddog Ymgysylltu'r Llais Myfyrwyr yn uniongyrchol. |
| **CYNRYCHIOLWYR MYFYRWYR / DOSBARTH**<br>**Tua 1 – 2 i bob Grŵp CDU, Tiwtor, Bugeiliol, Cynnydd neu Ddosbarth** | Bydd pob Cynrychiolydd Myfyrwyr yn cael hyfforddiant ar gyfer eu rôl, gyda'r sesiynau cyntaf yn cael eu cynnal ym mis Hydref, a sesiynau ychwanegol yn cael eu cynnal yn ôl y galw trwy gydol y flwyddyn academaidd. Gellir cyflwyno sesiynau hyfforddiant gan Swyddog Ymgysylltu'r Llais Myfyrwyr, aelodau priodol eraill, staff neu siaradwyr gwadd. Cynrychiolwyr Myfyrwyr sy'n gyfrifol am gasglu barn eu dosbarth i'w cyflwyno mewn cyfarfodydd. |
| **CYNRYCHIOLWYR CYNGOR SAFLE**<br>**Tua 12 i bob Safle** | Mae'n ofynnol i Gynrychiolwyr Cyngor Safle fynychu un cyfarfod o Gyngor y Safle bob tymor - os nad ydynt yn gallu bod yn bresennol, maent yn gallu cyflwyno eu syniadau trwy Ffurflen Google. Mewn cyfarfodydd Cyngor Safle maent yn gyfrifol am gynrychioli eu maes astudio. |
| **IS-LYWYDD MYFYRWYR**<br>**1 i bob Safle** | Mae Is-lywyddion Myfyrwyr yn gyfrifol hefyd am gadeirio cyfarfodydd Cyngor Safle. Dylai is-lywyddion hefyd fod yn barod i gymryd yr awenau mewn gweithgareddau ac ymgyrchoedd Llais Myfyrwyr sy'n cael eu harwain gan Fyfyrwyr. Yn ystod Medi-Hydref eu Is-lywyddiaeth, mae'n ofynnol iddynt hefyd baratoi ymgyrch ar gyfer Llywyddiaeth grŵp eu safle. |
| **LLYWYDD MYFYRWYR**<br>**1 i bob 3 Safle** | Mae pob Llywydd Myfyrwyr yn gyfrifol am oruchwylio 3 safle. Mae'r ddau Lywydd yn gyd-gyfrifol am gadeirio'r Senedd Myfyrwyr - rhaid i o leiaf un Llywydd fod yn bresennol. Mae Llywyddion Myfyrwyr hefyd yn gyfrifol am oruchwylio ymgyrchoedd a phrosiectau sy'n cael eu harwain gan Llais Myfyrwyr ar draws grŵp eu safle i sicrhau eu bod yn cael eu diweddaru ac ar y trywydd iawn. |

Gellir gofyn i gynrychiolwyr sy'n methu â chwblhau'r lefel berthnasol o hyfforddiant o fewn cyfnod rhesymol drosglwyddo eu rôl i aelod arall o'u dosbarth.

Os bydd Is-lywydd neu Lywydd yn ymddiswyddo, bydd etholiad arall yn cael ei gynnal, neu os nad oes digon o amser (i'w drafod â'r Uwch Reolwyr), dylid cynnig y Llywyddiaeth i'r ymgeisydd a ddaeth yn ail.

# PLATFFORM LLAIS MYFYRWYR:

CYFRAN-OGWCH!

**Y cyfarfodydd, digwyddiadau ac offer canlynol yw prif blatfform Llais Myfyrwyr Coleg Cambria, ewch i wefan Llais Myfyrwyr i gyrchu bob un a chael manylion amdanynt:**

## CYFARFODYDD CYNRYCHIOLWYR MYFYRWYR

Mae'n ofynnol i'r Cynrychiolwyr Myfyrwyr/Dosbarth ar gyfer pob dosbarth gael adborth, pryderon, awgrymiadau a syniadau gan y myfyrwyr yn eu dosbarth neu grŵp tiwtor. Yna bydd y rhain yn cael eu coodi drwy Sianeli'r Llais Myfyrwyr isod a Chyfarfodydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr unwaith y tymor.

## CYFARFODYDD CYNRYCHIOLWYR MYFYRWYR – IS-CYFARWYDDIAETH / CYFARWYDDIAETH

Yn aml, gofynnir i Gynrychiolwyr Myfyrwyr gyfarfod fel is-gyfarwyddiaeth / cyfarwyddiaeth o leiaf unwaith y tymor. Cynhelir y cyfarfodydd hyn yn aml ym mhresenoldeb Is-Bennaeth, Pennaeth Cynorthwyol neu Gyfarwyddwr Cwricwlwm.

## CYFARFODYDD CYNGOR SAFLE

Cyngor Safle sy'n gyfrifol am sefydlu ein polisi (y gellir ei wrthdroi mewn Senedd Myfyrwyr neu Refferendwm), gan wneud a diwygio Amserlenni – rolau/dyletswyddau cynrychioliadol, hyfforddiant, Calendr Llais Myfyrwyr – a gweithredu fel fforwm ymgynghori ar gyfer codi materion, trafod a gweithredu. Gall aelodau Cyngor Safle gynnwys y Prif Swyddog Gweithredol, dirprwy Brif Swyddogion Gweithredol, y Pennaeth, Is-benaethiaid cynrychioliadol, Penaethiaid Cynorthwyol neu Gyfarwyddwyr Cwricwlwm.

## SENEDD MYFYRWYR

O leiaf unwaith y flwyddyn academaidd, cynhelir Senedd Myfyrwyr, gydag o leiaf 40 o Gynrychiolwyr Myfyrwyr yn bresennol, i ddod â phob Cynrychiolydd Myfyrwyr, Cynrychiolwyr Cyngor Safle ac Is-Lywyddion Myfyrwyr o bob safle ynghyd. Pan fo polisïau'n cael eu cyflwyno i'w trafod, dim ond yr aelodau cynrychioliadol hyn sy'n gymwys fel cynrychiolwyr pleidleisio.

## PWYLLGOR GWEITHREDOL

Y Pwyllgor Gweithredol sy'n gyfrifol am redeg Llais Myfyrwyr o ddydd i ddydd yn unol â'r cyfansoddiad ac unrhyw amserlenni, unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol ac unrhyw benderfyniadau a wneir gan Gyngor y Safle, neu gan aelodau mewn Senedd neu Refferendwm.

## GRWPIAU FFOCWS

Mae pob aelod yn gymwys i fynychu grwpiau ffocws i drafod pwnc canolbwyntiedig mewn manylder - e.e. Arlwyo, Anghenion Dysgu Ychwanegol, gofalwyr ifanc, ac ati.

## DWEUD EICH DWEUD

Mae gan bob aelod fynediad i'r offeryn Dweud Eich Dweud ar wefan Llais Myfyrwyr. Drwy'r platfform hwn, gall aelodau rannu syniadau, awgrymiadau neu geisiadau ac annog aelodau eraill i bleidleisio o blaid neu bleidleisio yn erbyn yn ôl eu cytundeb.

## REFFERENDA:

Gellir galw refferendwm, lle caniateir i bob aelod bleidleisio, ar unrhyw fater drwy bleidlais fwyafrifol o leiaf dwy ran o dair o holl aelodau Cyngor Safle, neu drwy gytundeb gan y ddau Lywydd Myfyrwyr os byddant yn cael deiseb yn nodi'r mater a'r enw, cwrs, rhif myfyriwr a llofnod o leiaf 200 o aelodau.

Yn achos refferendwm, gall polisi a sefydlwyd gan refferendwm wrthdroi polisi a sefydlwyd gan yr aelodau yn y Senedd Myfyrwyr neu gan Gyngor y Safle.

## PWYLLGOR GWEITHREDOL:

Bydd y Pwyllgor Gweithredol yn cynnwys y Llywyddion Myfyrwyr a'r Llywodraethwyr Myfyrwyr, Is-Lywyddion, Swyddogion Myfyrwyr, y Swyddog AU a'r Swyddog DYYG. Gall Cadeiryddion Grwpiau Cymdeithasol Myfyrwyr hefyd fynychu'r pwyllgor hwn. Gelwir pob aelod o'r Pwyllgor Gweithredol yn Swyddogion Gweithredol.

Gall Pwyllgor Gweithredol ychwanegu at ei aelodaeth drwy gyfethol hyd at 8 Cynrychiolydd Myfyrwyr.

Bydd y Pwyllgor Gweithredol yn rhedeg Llais Myfyrwyr o ddydd i ddydd yn unol â'r cyfansoddiad a'r amserlenni, unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol, unrhyw benderfyniadau y mae'r aelodau'n eu gwneud mewn Senedd neu refferendwm, neu benderfyniadau a wneir gan Gyngor y Safle.

Ceir rhestr lawn o rolau'r Swyddogion Myfyrwyr sydd ar gael o fewn y Pwyllgor Gweithredol ar Dudalen 8.

Bydd y Pwyllgor Gweithredol yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn academaidd, naill ai wyneb yn wyneb, neu'n rhithwir pan na all swyddogion ddod wyneb yn wyneb.

## BYDD SWYDDOGION GWEITHREDOL YN RHOI'R GORAU I FOD YN SWYDDOGION OS

a) Byddant yn ymddiswyddo drwy roi rhybudd;

Oherwydd bod rôl swyddog yn fraint o fod yn aelod, gall Swyddogion Gweithredol hefyd colli eu rôl os byddant yn torri 'Cod Ymddygiad' Coleg Cambria.

# PLATFFORM LLAIS MYFYRWYR:

CYFRAN-OGWCH!

## PWERAU'R PWYLLGOR GWEITHREDOL:

Y Pwyllgor Gweithredol sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff ein Llais Myfyrwyr ei reoli, ein llywodraethiant (bod â'r trefniadau cywir mewn grym ar gyfer goruchwylio'r hyn yr ydym yn ei wneud), strategaeth a gwariant arfaethedig.

Gall y Pwyllgor ddiystyru unrhyw benderfyniad neu bolisi a wneir gan yr aelodau mewn Senedd, refferendwm a gan y Cyngor Safle:

a) Sydd neu a allai gael effeithiau ariannol difrifol i ni
b) Sydd neu a allai fod yn erbyn y gyfraith; neu
c) Nad yw efallai er ein lles pennaf.

## PWYLLGOR GWEITHREDOL – SWYDDOGION MYFYRWYR

**Arweinwyr Safle**

- Llywodraethwyr Myfyrwyr
- Llywyddion
- Is-lywyddion

Ceir manylion am ddyletswyddau Swyddogion Myfyrwyr ar Dudalennau 9–12 a'u bwriad yw cefnogi rolau tîm Arweinwyr y Safleoedd.

Mae Cynrychiolwyr Myfyrwyr yn gymwys i ymgymryd â sawl rôl, e.e. Cynrychiolwyr Cyngor Safle a Swyddogion Merched, cyn belled nad oes cwynion gan staff addysgu ynghylch dirywiad yn eich cynnydd academaidd. Efallai y bydd myfyrwyr mewn rolau y mae eu gwaith yn driywio neu'n destun pryder yn gorfod rhoi'r gorau i'w rolau/rolau ychwanegol.

## BYDD SWYDDOGION MYFYRWYR YN CAEL EU RECRIWTIO DRWY'R BROSES GANLYNOL

- Gwahoddir Cynrychiolwyr Myfyrwyr i gyflwyno ceisiadau ar gyfer rôl/rolau o'u dewis nhw
- Gwahoddir ymgeiswyr i fynd i banel cyfweliad
- Bydd yn ofynnol i rolau sy'n galw am sgìl penodol (e.e. Swyddog y Gymraeg) gymryd rhan mewn prawf priodol o'u sgil
- Yna bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu dewis drwy etholiad

## SWYDDOGION MYFYRWYR

- ADY
- Caplaniaeth
- Cynaliadwyedd
- ESOL
- Mentergarwch ac Elusennau
- Myfyrwyr Hŷn
- Llesiant
- LHDTC+ ac Anableddau
- Y Gymraeg

## PWYLLGOR GWEITHREDOL – DYLETSWYDDAU SWYDDOGION MYFYRWYR:

Bydd pob Swyddog Myfyrwyr yn gyfrifol am gynorthwyo gyda gweithgareddau Llais Myfyrwyr o fewn eu rôl a'u cydlynu.

Bydd disgwyl iddynt gynnig eu syniadau a'u hawgrymiadau eu hunain ar gyfer sesiynau a diweddariadau sy'n gysylltiedig â maes eu rôl e.e. byddai angen i'r Swyddog Mentergarwch ac Elusennau feddwl am ddulliau o godi arian ar gyfer Llais Myfyrwyr Coleg Cambria er mwyn i ni gael arian ar gyfer cynnal sesiynau a gweithgareddau a chael y gallu i wahodd siaradwyr gwadd ar bynciau perthnasol i'n Haelodau.

Bydd pob syniad, awgrym a gweithgaredd yn cael eu trafod mewn Pwyllgor Gwaith cyn cael cymeradwyaeth a chymorth staff perthnasol yng Ngholeg Cambria.

Bydd Swyddogion Myfyrwyr wedi'u lleoli'n bennaf ar y safle lle maent yn astudio ond bydd disgwyl iddynt hefyd gymryd rhan mewn sesiynau ar safleoedd eraill o fewn rheswm.

## MAE'R RÔL SWYDDOG MYFYRWYR YN WIRFODDOL AC YN PARA AM DYMOR O UN FLWYDDYN ACADEMAIDD YN UNIG.

CYFRAN-OGWCH!

# ROLAU SWYDDOGION MYFYRWYR

CYFRAN-OGWCH!

## SWYDDOG ADY

Yn y rôl hon bydd y Swyddog Myfyrwyr yn gyfrifol am weithio'n agos gyda'r timau ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol) a SBA (Sgiliau Byw'n Annibynnol) i sicrhau bod anghenion myfyrwyr sydd ag ADY neu sy'n astudio cyrsiau SBA yn cael eu cynrychioli'n llawn. Bydd y Swyddog Myfyrwyr hyn yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn y grwpiau cynghori bob tymor canlynol fel cynrychiolydd myfyrwyr (gyda staff cymorth yn bresennol pan fo angen): Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

## SWYDDOG CAPLANIAETH

Mae rôl ein Swyddog Aml-ffydd y Coleg yn gyfle hwyl i'n helpu ni fel cymuned i ddathlu a deall amrywiaeth y diwylliant a'r ffydd yn ein cymuned leol a'r byd ehangach. Bydd rôl y Swyddog Aml-ffydd yn helpu i gynorthwyo ymgyrchoedd fel Culture Collections a gweithio gyda'r Gaplaniaeth i ddatblygu syniadau yn y coleg am bwnc cymunedau aml-ffydd.

## SWYDDOG ANABLEDDAU

Yn y rôl hon, bydd y Swyddog Myfyrwyr yn gyfrifol am helpu i gydlynu gweithgareddau ar gyfer myfyrwyr anabl, codi ymwybyddiaeth a chynrychioli eu hawliau ar draws safleoedd ac unrhyw faterion y gallant eu hwynebu. Bydd y Swyddog Myfyrwyr hyn yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn y grwpiau cynghori bob tymor canlynol fel cynrychiolydd myfyrwyr: Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth; Grŵp Myfyrwyr Anabl.

## SWYDDOG MENTERGARWCH AC ELUSENNAU

Ydych chi'n arloesol, brwdfrydig ac oes gennych angerdd am elusennau a chodi arian? Ar hyn o bryd rydym yn recriwtio ar gyfer Swyddog Myfyrwyr Mentergarwch ac Elusennau, i arwain ein pwyllgor mentergarwch sydd wedi'i arwain gan fyfyrwyr. Calon yw ein cangen elusennol yn Cambria sy'n cynnig cyfleoedd cyffrous i godi arian a gwirfoddoli.

## SWYDDOG ESOL

Yn y rôl hon, bydd y Swyddog Myfyrwyr yn gyfrifol am helpu i gydlynu gweithgareddau ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol, codi ymwybyddiaeth a chynrychioli eu hawliau ar draws y safleoedd. Bydd y Swyddog Myfyrwyr hyn yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn y grwpiau cynghori bob tymor canlynol fel cynrychiolydd myfyrwyr: Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

## SWYDDOG LLEIAFRIFOEDD ETHNIG

Yn y rôl hon, bydd y Swyddog Myfyrwyr yn gyfrifol am weithio'n agos gyda'r Swyddog Cangen Coleg Cymraeg Cenedlaethol i hyrwyddo'r Gymraeg ar draws pob safle a sicrhau bod Llais Myfyrwyr Coleg Cambria yn cadw cyswllt cadarn gyda'r Gymraeg. Elfen arall o'r rôl yw cynorthwyo gyda recriwtio a chydlynu'r myfyrwyr Llysgenhadon y Gymraeg. Bydd y Swyddog Myfyrwyr hyn yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn y grwpiau cynghori bob tymor canlynol fel cynrychiolydd myfyrwyr: Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

# ROLAU SWYDDOGION MYFYRWYR

CYFRAN-OGWCH!

## SWYDDOG LHDTC+

Yn y rôl hon, bydd y Swyddog Myfyrwyr yn gyfrifol am helpu i gydlynu gweithgareddau ar gyfer myfyrwyr LHDTC+, hyrwyddo ymwybyddiaeth a chynrychioli eu hawliau ar draws y safleoedd. Gwahoddir y Swyddog Myfyrwyr hyn hefyd i gymryd rhan yn y grwpiau cynghori tymhorol canlynol fel cynrychiolydd o Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Myfyrwyr; Grŵp Cynghori ac LHDTC+.

## SWYDDOG MYFYRWYR HŶN

Yn y rôl hon, bydd y Swyddog Myfyrwyr yn gyfrifol am helpu i gydlynu gweithgareddau ar gyfer myfyrwyr hŷn, codi ymwybyddiaeth a chynrychioli eu hawliau ar draws y safleoedd. Bydd y Swyddog Myfyrwyr hyn yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn y grwpiau cynghori bob tymor canlynol fel cynrychiolydd myfyrwyr: Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

## SWYDDOG CYNALIADWYEDD

Yn y rôl hon, bydd y Swyddog Myfyrwyr yn gyfrifol am weithio gyda Swyddogion 'Hawliau' eraill a helpu i gydlynu gweithgareddau a grwpiau amgylcheddol, ecolegol a chynaliadwyedd ar draws y safleoedd. Bydd y Swyddog Myfyrwyr hyn yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn grwpiau cynghori perthnasol bob tymor fel cynrychiolydd myfyrwyr.

## SWYDDOG LLESIANT

Yn y rôl hon, bydd y swyddog yn meddwl am syniadau am weithgareddau llesiant gallwn gynnal hybiau. Byddant yn cynorthwyo gyda gosod ar gyfer digwyddiadau (wythnosau iechyd meddwl ac ati), ac yn darparu adborth. Byddant yn cynorthwyo lledaenu'r neges ar gyfer iechyd meddwl a llesiant hefyd.

## SWYDDOG Y GYMRAEG

Yn y rôl hon, bydd y Swyddog Myfyrwyr yn gyfrifol am weithio'n agos gyda'r Swyddog Cangen Coleg Cymraeg Cenedlaethol i hyrwyddo'r Gymraeg ar draws pob safle a sicrhau bod Llais Myfyrwyr Coleg Cambria yn cadw cyswllt cadarn gyda'r Gymraeg. Elfen arall o'r  rôl yw cynorthwyo gyda recriwtio a chydlynu'r myfyrwyr Llysgenhadon y Gymraeg. Bydd y Swyddog Myfyrwyr hyn yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn y grwpiau cynghori bob tymor canlynol fel cynrychiolydd myfyrwyr: Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

# PWYLLGOR GWEITHREDOL – CYFARFODYDD:

CYFRAN-OGWCH!

**Mae'n rhaid i'r Pwyllgor Gweithredol gynnal o leiaf dau gyfarfod bob blwyddyn academaidd. Gall cyfarfodydd o'r Pwyllgor Gweithredol gael eu galw (trefnu) gan unrhyw ddau Swyddog Gweithredol.**

Fel arfer, rhoddir o leiaf saith niwrnod o rybudd ar gyfer cyfarfod o'r Pwyllgor Gweithredol. Gellir rhoi rhybudd byrrach os yw pob Swyddog Gweithredol yn cytuno neu os oes angen cynnal cyfarfod ar frys ac felly nad oes modd rhoi saith niwrnod o rybudd.

Rhaid i o leiaf pedwar aelod fod yn bresennol mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgor Gweithredol er mwyn gallu gwneud penderfyniadau.

Y Llywyddion Myfyrwyr fydd cadeirydd ac is-gadeirydd cyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredol. Os nad oes yr un Llywydd Myfyrwyr ar gael, bydd mynychwyr y cyfarfod yn penodi Swyddog Gweithredol arall i weithredu fel cadeirydd.

Bydd y Pwyllgor Gweithredol yn gwneud penderfyniadau drwy bleidlais fwyafrifol. Os oes nifer gyfartal o bleidleisiau ar fater, bydd gan y Cadeirydd bleidlais fwrw yn ogystal ag unrhyw bleidlais arall sydd ganddynt.

Gall cyfarfod o'r Pwyllgor Gweithredol gael ei gynnal wyneb yn wyneb pan fo'n ymarferol, dros y ffôn neu drwy unrhyw ddull electronig neu rithwir arall y bydd y Pwyllgor Gweithredol yn cytuno arno.

## PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR GWEITHREDOL HEB GYFARFOD:

Os bydd pob un o swyddogion Pwyllgor Gweithredol yn cytuno ar fater, gallant wneud penderfyniad heb gynnal cyfarfod o'r Pwyllgor Gweithredol, trwy ddweud wrth ei gilydd eu bod yn cytuno.

## LLYWODRAETHWYR MYFYRWYR:

Bob blwyddyn academaidd, bydd dau fyfyriwr yn ymgymryd â rolau Llywodraethwyr Myfyrwyr ar Fwrdd Llywodraethwyr Coleg Cambria. Mae'r myfyrwyr hyn yn parhau mewn grym am un flwyddyn academaidd lawn, ac ar ôl hynny mae'r broses recriwtio yn dechrau eto.

## LLYWODRAETHWYR MYFYRWYR – CYMHWYSEDD A'R BROSES RECRIWTIO:

Ym mis Ebrill, gwahoddir Cynrychiolwyr y Cyngor Safle sy'n dychwelyd i astudio yn y flwyddyn academaidd nesaf i gyflwyno cais ar gyfer rolau Llywodraethwyr Myfyrwyr.

Dylai'r ceisiadau gynnwys geirda wedi'i ysgrifennu ar bapur â phennawd Coleg Cambria arno gan o leiaf un o ddarlithwyr yr ymgeisydd. O'r ceisiadau, bydd rhestr fer o uchafswm o 3 ymgeisydd yn cael ei thynnu ar gyfer pob safle.

Bydd gofyn i ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer roi datganiad byr ynghylch pam y dylent gael eu dewis i gael eu cyflwyno ger bron fel yr ymgeisydd ar gyfer eu safle. Yna bydd aelodau Llais Myfyrwyr yn pleidleisio dros ymgeiswyr.

Yn dilyn yr etholiadau, bydd yr ymgeisydd a ddewiswyd o bob safle yn cael eu cyfweld gan aelodau o Fwrdd y Llywodraethwyr a bydd 2 yn cael eu dewis fel Llywodraethwyr Myfyrwyr. Cynhelir cyfweliadau ganol Mehefin cyn i argymhelliad gael ei gynnal ar ddiwedd Bwrdd Mehefin.

## LLYWODRAETHWYR MYFYRWYR – DISGRIFIAD SWYDD:

Ceir gwybodaeth ychwanegol yn ymwneud â rôl Llywodraethwr Myfyrwyr ar y dolenni canlynol:

- Pecyn Paratoi Llywodraethwr Myfyrwyr
- AOC: Rôl Llywodraethwr Myfyrwyr fel Aelod o Gorff Llywodraethu'r Coleg

## CLYBIAU A CHYMDEITHASAU:

Gall clybiau a chymdeithasau gael eu cydnabod gan Gyngor y Safle cyn belled â'u bod yn bodloni gofynion Coleg Cambria ac yn cyfrannu at ddatblygiad myfyrwyr, naill ai'n academaidd neu'n bersonol.

## GWRTHDARO BUDDIANNAU:

Pryd bynnag y bydd mater yn cael ei drafod mewn cyfarfod ac mae gan aelod wrthdaro buddiannau, rhaid iddynt ddweud wrth yr aelodau eraill am y buddiant hwnnw. Bydd yn rhaid iddynt adael y cyfarfod dros dro tra bydd y mater yn cael ei drafod a'i bleidleisio arno cyn y gallant ddychwelyd.

## YMLYNIAD WRTH SEFYDLIADAU ERAILL:

Rhaid i unrhyw gynnig i ymlynu wrth sefydliad arall gael ei gymeradwyo gan yr aelodau mewn Senedd Myfyrwyr neu drwy refferendwm ac yn amodol ar gymeradwyaeth Coleg Cambria.

Byddwn yn hysbysu Coleg Cambria o'r holl gysylltiadau newydd arfaethedig â sefydliadau eraill, gan gynnwys enw'r sefydliad a'r ffi sydd i'w dalu.

Byddwn yn cynnwys manylion pob cysylltiad â sefydliadau eraill a phob ffi a dalwyd ar Wefan Llais Myfyrwyr. Mae ein Gwefan Llais Myfyrwyr ar gael i'n holl aelodau ac i Goleg Cambria.

Os bydd ein haelodau eisiau gwrthwynebu cysylltiad cyfredol ag unrhyw sefydliad penodol, rhaid iddynt gyflwyno deiseb, wedi'i llofnodi gan o leiaf 200 o aelodau ac yn cynnwys eu Rhif Myfyriwr, i un o'r Llywyddion. Byddwn yn galw refferendwm ar y mater. Ni allwn gynnal refferendwm ynghylch yr un mater yn ystod yr un flwyddyn academaidd.

# PWYLLGOR GWEITHREDOL – CYFARFODYDD:

CYFRAN-OGWCH!

### GWEITHDREFN GWYNO:
Os byddwn yn cael unrhyw gwynion am Gynrychiolydd, y Pwyllgor Gwaith neu unrhyw aelod o Gyngor y Myfyrwyr, byddwn yn delio â'r rhain o dan y weithdrefn gwyno a sefydlwyd gan Goleg Cambria.

### CYLLID:
Byddwn yn cael adnoddau priodol gan Goleg Cambria i'n galluogi i gyflawni ein hamcanion.

### CYFRIFON AC ADRODDIADAU:
Bydd y Pwyllgor Gweithredol yn ymddiried yng Ngholeg Cambria i gadw at Ddeddf Addysg 1994 a Deddf Elusennau 1993 o ran cadw cofnodion ariannol ac archwilio neu archwilio cyfrifon.

### COFNODION:
Bydd y Pwyllgor Gweithredol yn sicrhau bod cofnodion pob cyfarfod, gan gynnwys grwpiau ffocws – oni bai eu bod wedi cael eu diogelu oherwydd natur eu trafodaethau (e.e. gofalwyr ifanc, oedolion sy'n agored i niwed neu grwpiau ffocws ADY) – yn cael eu cadw a'u darparu i'r holl aelodau drwy Wefan Llais Myfyrwyr.

### DIWYGIADAU I'R CYFANSODDIAD:
Bydd Cynghorau'r Safle a Choleg Cambria yn adolygu'r cyfansoddiad hwn bob pum mlynedd o leiaf.

Dim ond trwy benderfyniad a basiwyd ym mhob cyfarfod o Gyngor y Safle gan o leiaf dwy ran o dair o'r rhai sy'n bresennol ac sydd â'r hawl i bleidleisio y gellir diwygio'r cyfansoddiad, cyn belled ag y bydd Coleg Cambria yn cymeradwyo'r gwelliannau.

### DEHONGLIAD:
Os bydd unrhyw un yn herio unrhyw ran o'r cyfansoddiad hwn, byddwn yn gofyn i'n Llywyddion wneud penderfyniad.

Os bydd penderfyniad Llywydd yn cael ei herio, yn dilyn cyngor cyfreithiol, byddwn yn gofyn i Gyngor y Safle wneud penderfyniad.

Os na fydd aelod o'n cymdeithas yn fodlon â phenderfyniad Cyngor Safle, gallant wneud apêl i Gadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr, a bydd penderfyniad y Cadeirydd yn derfynol.

### CYFARFODYDD HEB EU PENNU'N BAROD:
Gall unrhyw Lywodraethwr/Llywydd Myfyrwyr, Swyddog Myfyrwyr, AU neu DYYG ofyn am gael unrhyw gyfarfodydd ychwanegol a gyda chytundeb Pennaeth Coleg Cambria, gall hyn fynd yn ei flaen.

### GWARCHOD RHAG ATEBOLRWYDD:
Bydd pob aelod, a phob swyddog neu archwilydd arall o'n hundeb, yn cael eu hyswirio yn erbyn unrhyw atebolrwydd y maent yn ei wynebu wrth amddiffyn unrhyw achos, boed yn achos sifil neu droseddol, lle rhoddir dyfarniad o'u plaid neu lle byddant yn eu cael yn ddieuog, neu mewn cysylltiad ag unrhyw gais lle mae'r llys yn darganfod:

- nad ydynt wedi bod yn esgleulus,
- nad ydynt wedi methu â chyflawni eu dyletswyddau, neu
- nad ydynt wedi torri ymddiriedaeth o ran ein gwaith, ac yn erbyn pob cost, tâl, colled, treuliau, neu atebolrwydd y maent yn eu hwynebu wrth gyflawni eu dyletswyddau o ran gweithgareddau Llais Myfyrwyr.

### DIRWYN I BEN:
Os byddwn yn cael ein dirwyn i ben, bydd unrhyw arian neu eiddo sy'n weddill wedi i'n holl ddyledion gael eu talu yn eiddo i Goleg Cambria ac yn cael ei ddal mewn ymddiriedolaeth gan Goleg Cambria er dibenion cymdeithas myfyrwyr sy'n cynrychioli myfyrwyr Coleg Cambria.

# CALENDR LLAIS MYFYRWYR:

CYFRAN-OGWCH!

**Mae'r canlynol yn amlinelliad o weithgareddau Llais Myfyrwyr yn eu trefn, fesul mis, yn y calendr academaidd.**

## TYMOR 1 - TYMOR YR HYDREF

### MEDI:
- Ffair y Glas
- Cofrestriadau Cynrychiolwyr Myfyrwyr

### MEDI/HYDREF:
- Ymgyrchoedd ac Etholiadau Llywyddion Myfyrwyr

### HYDREF:
- Hyfforddiant Cynrychiolwyr Myfyrwyr
- Diwrnod Meithrin Tîm Cynrychiolwyr Myfyrwyr

### TACHWEDD/RHAGFYR:
- Cyfarfodydd Cyngor Safle Tymor 1
- Ffeiriau Nadolig

### YN YSTOD TYMOR 1:
- Cyfarfodydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr Tymor 1
- Cyfarfod Pwyllgor Gweithredol Tymor 1
- Cyfarfodydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Tymor 1

## TYMOR 2 - TYMOR Y GWANWYN

### IONAWR:
- Ffeiriau Glas

### CHWEFROR:
- Senedd Myfyrwyr
- Diwrnod Meithrin Tîm SBA

### MAWRTH:
- Cyfarfodydd Cyngor Safle Tymor 2

### YN YSTOD TYMOR 2:
- Ceisiadau ar gyfer Llywodraethwyr Myfyrwyr
- Ceisiadau ar gyfer Is-Lywyddion Myfyrwyr
- Cyfarfodydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr Tymor 2
- Cyfarfod Pwyllgor Gweithredol Tymor 2
- Cyfarfodydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Tymor 2

## TYMOR 3 - TYMOR YR HAF

### EBRILL:
- Ceisiadau ar gyfer Llywodraethwyr Myfyrwyr
- Ceisiadau ar gyfer Is-Lywyddion Myfyrwyr

### MAI:
- Ymgyrchoedd Llywodraethwyr Myfyrwyr ac Etholiadau ar gyfer y Rhestr Fer
- Ymgyrchoedd ac Etholiadau Llywodraethwyr Myfyrwyr

### MEHEFIN:
- Digwyddiad Gemau Olympaidd Masnach – Ffordd y Bers
- Cyfweliadau Llywodraethwyr Myfyrwyr

### YN YSTOD TYMOR 3*:
- Cyfarfodydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Tymor 3
- * Cyfarfodydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr Tymor 3
- * Cyfarfod Pwyllgor Gweithredol Tymor 3

*Os oes angen. **Gellir eu cynnal yn ystod Tymor 2 neu Dymor 3.

# CYFRAN-OGWCH!

COLEG CAMBRIA

## CYFANSODDIAD LLAIS MYFYRWYR

WWW.CAMBRIA.AC.UK
0300 30 30 007